# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

Annwyl Gyd- aelodau,

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach i gyd.
Mae hi'r ail ddydd Mawrth ym Mehefin, ac yr ydym yn parhau i fod mewn 'lockdown', felly dyma anfon diweddariad bach atoch gan na allwn gyfarfod efo'n gilydd.

Rydym yn disgwyl clywed gan y cwmni Egeosolutions ynglyn â'r adroddiad ar yr archwiliad dwr ar gyfer yr estyniad i'r fynwent newydd, gall gymeryd hyd at fis i ddod drwadd.

Wedi pwyso a mesur daeth Is bwyllgor  Clwb Ieuenctid Nefyn i'r canlyniad anodd i beidio a chynnal y Clwb `Ieuenctid yn y flwyddyn academaidd nesaf (2020-2021), oherwydd yr amgylchiadau presennol yn ymwneud a  Covid-19.

Cysylltodd Pat gyda'g Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn ynglyn â chonsyrn gan aelod o'r cyhoedd ynglyn â Ffynon Nefyn ddim yn gweithio fel y dyliai, cafwyd ateb y byddent yn mynd ar ôl y mater.

Mae Cliff am fynd ati i dacluso rhywfaint ar wair sydd wedi tyfu'n fler o gwmpas Edern, Morfa a Nefyn, doeddem ddim yn gweld pwrpas gofyn a disgwyl i Cyngor Gwynedd fynd ati, oherwydd fod amgylchiadau Covid-19 wedi arafu cryn dipyn ar y math yma o waith.

Cyfraniadau-
Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol o £1000 o bunnoedd yr un i Scanner Ward Alaw ac hefyd i Dy Gobaith.

Bydd Pat yn rhannu y rhestr daliadau fory, ni fydd angen i chi ymateb yn rhoi caniatad, mae'r rhestr yn cael ei rhannu er gwybodaeth i chi ar y gwariant.

Byddaf mewn cysylltiad eto cyn bo hir, tan hynny, cymrwch ofal.

Cofion atoch, Catrin.

**Taliadau wedi eu gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £816.04
- Taliad y Cadeirydd – trydydd taliad - £300.00
- Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
- John Gwynfor Jones – Ail agor bedd William Evans - £375.00
- D M Parry – Ail daliad Mynwent Nefyn - £850.00
- Cliff Hughes – Ail daliad torri llwybrau - £825 & gwaith ychwanegol - £124 = £949.00
- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn mis Mawrth, Ebrill a Mai - £194.02
- Ashley Hughes - £75.82
- John Gwynfor Jones – Ail agor bedd Robert Rowlands - £375.00

**Taliadau brys sydd wedi cael eu gwneud:**

- Cliff Hughes – Contract 2019-2020 – gweddil oedd yn ddyledus - £2640.00
- N Power – Trydan Llyfrgell mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror- £105.06
- Dwr Cymru – Mynwent Nefyn - £15.26
- Grwp Apel Uned Cancr a Haematoleg Alaw – Cyfraniad - £1,000.00
- Ty Gobaith – Cyfraniad - £1,000.00

**Taliadau wedi eu derbyn:**

- Dewi P.Thomas – claddu – Richard Jones - £655.00

Pat Humphreys - Clerc
Cae'r Wydden, Lon Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS
• Symudol: 07901 704410 • ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298